# Y FENTER GOLL

To be published by Subscription.
*A Philosophical and Physical Sketch of Nature in her different Kingdom,*
including Astronomical remarks, &c. &c.
**In the Ancient British Language.**
*Dedicated by Permission to*

I'w gyhoeddi trwy Ragdaliadau,
**TRYSORFA**
**Gwybodaeth Athronyddol,**
YN CYNNWYS

Hanes ehelaeth am ymddangosiadau Troell Anian, yn ol Barn yr Awduron enwocaf ar Anianyddiaeth er dyddiau Thales o Melita 639 o flynyddau cyn Crêd, ac yn benaf o waith Newton Leadbetter, Ferguson, Long, Le Grand, Pliny'r ail ac Enwogion ereill; ynghyd a sylw y Cyhoeddwr ei hun ar Anian a'i rhanau yn yspaid hanner cant mlynedd a aethant heibio, &c.

Bwriedir i'r gwaith hwn gynnwys yn gyntaf, Talfyriad o farn amryw o'r dysgedigion enwocaf ar Anianyddiaeth.

Yn ail, sylw ehelaeth ar Faintioli, Pellder a Rhodfeydd y Sêr o gylch yr Haul, yn gydunol a thystiolaeth y Dwyfol wirionedd, ynghyd a'u gosgorddiaid (*satellites*) o'u hamgylch hwythau, Sêr Gwib, &c.

Ac yn 3ydd, sylw ar Natur a sugniadau y pedair elfen, sef, Daear, Dwfr, Tân ac Awyr yn eu heffeithiau cynhyrfol o fewn cylch Anian, sef ar Lysiau, Coedydd, Anifeiliaid, Pysgod, Ehediaid a Dynoliaeth, a gwasanaeth y cyfryw Elfenau i breswylwyr y tair dosparth, sef Daear, Dwfr ac Awyr, a naturiaethau amryw o'u prif breswylwyr, y rhai sydd yn dangos mawredd doethineb y Creawdr yn eu cynnal a'u llywodraethu er cyd-weinyddiad i'w gilydd, ac yn benaf er cysur cynhaliaeth ac ymgeledd i Ddyn, yr hwn sydd Ryfeddod y rhyfeddodau Crëadigol! &c.

**GAN WILLIAM OWEN,**
(alias Gwilym Alaw) gynt o'r Chwaen wen, Môn.

Bwriedir i'r gwaith gael ei argraffu ar bapur da, a llythyren eglur, ac i gael ei gynnwys mewn tua 6 rhifyn swllt yr un, i ddyfod allan yn chwarterol, neu amlach os gellir; ac i'r gyntaf ymddangos cyn Calanmai nesaf, ac i gynnwys tua 40 tu dal.

Cynnwysa hefyd Ddarluniau i egluro y ddosbarth Seryddawl, ac bydd enw pob un a dderbynio un neu ychwaneg o'r Llyfrau yn cael eu hargraffu gyd a'r Rhifyn olaf.

Bydd swllt i'w dalu wrth roi yr enw, a swllt wrth dderbyn y rhan, fel na byddo talu am y rhifyn olaf. Bydd y gwaith i'w gael yn rhifynau mewn lleoedd cyfleus i'r Rhagdalwyr.

Dosbarthwyr 12 llyfr a gant *un* am eu trafferth.

Ionawr, 1832,

*Caergybi, Argraffwyd gan R. Roberts.*

*Mae'r hysbysiad yn eglur ddigon — ond, ysywaeth, ni welodd yr antur fawr yma erioed olau dydd. Ac yn yr ysgrif mae HUW WILLIAMS yn hela hanes Gwilym Alaw, 1762 — 1853.*

DECHREUAIS ymddiddori yn hanes William Owen pan oeddwn yn fachgen ysgol, a hynny ar ôl deall mai i'r Chwaen-wen yr aeth fy nhad yn was bach, wedi gadael yr ysgol ym Modedern, Môn, yn un ar ddeg oed, yn nawdegau cynnar y ganrif ddiwethaf.

Mae'n wir i William Owen farw dros chwarter canrif cyn geni fy nhad, ac na wyddai yntau fawr ddim amdano, ar wahân i'r hyn a glywsai ar lafar gan hwn a'r llall yn ardal Bodedern.

Ychydig iawn o help a gefais innau hefyd yn y blynyddoedd cynnar i geisio dod o hyd i wybodaeth am William Owen mewn tarddellau lleol. Gwyddwn mai ef oedd awdur y pennill *"O dragwyddol iachawdwriaeth /Yn yr arfaeth gafodd le"*, a dyna i gyd. A thrwy gyfrwng rhestr 'Talfyriadau Awduriaeth' y casgliad emynau a ddarparwyd at wasanaeth y ddwy eglwys Fethodistaidd yn 1927, dysgais bod blwyddyn ei eni a'i farw yn anhysbys ym maes emynyddiaeth dros drigain mlynedd yn ôl, a bod golygyddion y casgliad hwnnw hefyd wedi camsynied yn ddirfawr wrth ddisgrifio'r hen emynydd yn 'Barchedig'.

Yr hyn a barodd syndod i mi ar hyd y blynyddoedd oedd bod William Owen yn cael ei ystyried yn un o wŷr mwyaf deallus ac amryddawn y Methodistiaid Calfinaidd trwy Wynedd gyfan ym mlynyddoedd cynnar y ganrif ddiwethaf, ac eto nad oedd ei enw yn ymddangos yn yr un o'r ddwy gyfrol gyhoeddedig ar *Enwogion Môn* gan Robert Hughes ac R. Môn Williams.

* * *

FE DDYFNHAODD y dirgelwch gyda threiglad amser, yn enwedig ar ôl sylwi mai prin iawn oedd y wybodaeth am William Owen yn *Emynau a'u Hawduriaid* (arg. cyntaf 1945?, ac arg. newydd 1961), ac mai ychydig iawn a ychwanegwyd at y wybodaeth honno pan gyhoeddwyd *Y Bywgraffiadur Cymreig* (gw.adran yr 'Ychwanegiad' t.1061) yn 1953.

Sut yr oedd modd egluro bod un o flaenoriaid gweithgar eglwys M.C. Tŷ'n-y-maen, Môn, ym mlynyddoedd cynnar y ganrif ddiwethaf, a gŵr a fyddai'n trefnu cyfarfodydd crefyddol ar ei aelwyd yn y Chwaen-wen cyn bod sôn am godi capel yn yr ardal yn 1800, wedi cael ei lwyr anghofio gan y saint yn y Fam Ynys?

A pham y bu i enw gŵr a gyfrannodd yn helaeth ar amrywiol destunau i *Oleuad Gwynedd* a *Goleuad Cymru* rhwng 1819 a 1826, a chyhoeddi llyfrau (gan gynnwys un gyfrol o farddoniaeth dan y teitl *Lloffyn o Faes Boaz* .... 1813?) gael ei anwybyddu bron yn llwyr gan ei enwad ef ei hun ar ôl ei farw?

A pham hefyd nad yw enw gŵr o gyngor yn ei fro, ac amaethwr diwylliedig yr ymddiriedwyd iddo'r gorchwyl o lunio dogfen yn ymwneud ag ardrethiant gwahanol ffermdai a phlwyfi ym Môn rhwng 1785 a 1825, yn golygu fawr ddim mwyach i'r Monwys y dewisodd ef wasanaethu eu hynafiaid?

Yr ateb yw y byddai enw William Owen yn debygol o fod yn adnabyddus fel emynydd a llenor i genedl gyfan heddiw, oni bai iddo "syrthio i brofedigaeth a magl", chwedl John Thickens, ac i rai o wŷr blaenllawei enwad ym Môn ganrif a hanner yn ôl hefyd droi eu cefnau arno.

* * *

MEDDAI John Pritchard yn *Methodistiaeth Môn* bymtheng mlynedd ar hugain ar ôl marw William Owen:-*William Owen, y Chwaen-wen, neu Gwilym Alaw, oedd lenor lled wych ... Fel gwladwr, cyfrifid ef yn ddyn gwybodus a defnyddiol. Fel crefyddwr, yr oedd yn dalentog, ac yn dduwinydd galluog. Byddai Charles o'r Bala yn gwneud sylw mawr ohono pan y deuai trwy y sir*

*Y mae yn wir ddrwg gennym ddywedyd i gymylau duon ddyfod dros William Owen. Gorchfygwyd ef gan ddiod feddwol, a dyrysodd yn ei amgylchiadau bydol, y rhai a fu unwaith yn llwyddiannus.*

Yr un mor ddiddorol yw tystiolaeth Thomas Hughes, y Gatehouse, – Brodor o blwyf Llanfugail, Môn – wrth drafod capel Tŷ'n-y-maen yn y gyfrol *Y Diweddar Thomas Hughes y Gatehouse* ... (Owen Hughes; Dolgellau 1899). Bu ei rieni ef yn aelodau ffyddlon yn Nhŷ'n-y-maen, a'i dad yn ddiacon yno:-

*Yr oedd (William Owen) yn ddyn talentog ac yn dduwinydd rhagorol ... Ond daeth cymylau duon drosto, ac wedyn cafodd ei lusgo gan feddwdod a phechodau eraill i dir y gogledd, ac i wlad machlud haul .*

Beth ynteu yw'r gwir am yr hen amaethwr diwylliedig o Fôn? A fu iddo 'syrthio i brofedigaeth a magl' mewn gwirionedd, ai ynteu a oedd a wnelo rhagfarnau a chulni crefyddol ei ddydd fwy â'i gwymp honedig oddi wrth ras?

Ceir yr atebion i'r cwestiynau hyn mewn clamp o lyfr sydd heddiw yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, ac sy'n cynnwys adran hunangofiannol fanwl, yn llaw William Owen ei hun.

Dywed awdur y llawysgrif ei fod wedi ei eni yn 1762, yn un o saith o blant, ac iddo briodi yn 1785 ag Elizabeth Hughes, y Chwaen-wen, Llantrisant, Môn, gwraig weddw (ddyledus iawn!) i amaethwr o blwyf Clynnog.

Ganwyd un ferch o'r briodas, sef Elizabeth William(s), a fedyddiwyd yn 1789, ac a briododd ŵr o blwyf Clynnog yn 1812.

Er mai braidd yn aneglur o safbwynt mynegiant yw'r rhan o lawysgrif William Owen sy'n ymwneud â'r 'dyddiau blin' yn ei hanes, cesglir mai ar gam y cyhuddwyd ef gan rai o'i gymdogion, a chan rai o'i gyn-aelodau yng nghapel Tŷ'n-y-maen. Ar ôl marw ei briod, lledaenwyd celwyddau amdano, gan ddweud ei fod "yn caru gyda'r benforwyn, a'i bod hithau yn feichiog". Cymerodd yntau ei nith i gadw tŷ iddo, ond yn fuan iawn lledaenwyd celwyddau yn yr ardal amdanynt hwythau.

* * *

I RWBIO halen i'r briw, cafodd William Owen amryw o golledion ar ei fferm, a'i gyhuddo hefyd ar un adeg gan "ddyn yn y society" o fod yn feddw, meddai, a gwyddai'n dda ei fod wedi cael ei gyhuddo o ffeddwdod gan "un a geisiai ei le fel blaenor" yn Nhŷ'n-y-maen. Mewn canlyniad, fe'i diarddelwyd fel blaenor, ac aeth yntau "yn isel o arian".

Ar ôl treulio cyfnodau mewn gwahanol garchardai (fel dyledwr, yn hytrach nag oherwydd meddwdod, o bosibl) treuliodd William Owen hwyrddydd ei oes yng Nghaergybi, ac yno y bu farw, yn 90 oed, a'i gladdu ym mynwent Llantrisant, Môn, ar 27 Ionawr 1853.


**AR WERTH**
*Er budd y 'St. David's Bone Marrow Research for Wales.'*
**Cannwyll y Cymry** *(arg. 1766) y Ficer Prichard*
**Sŵn y Jiwbili** *(1874) John Roberts, 'Ieuan Gwyllt.'*
*Mrs. P. Gruffydd-Pritchard, (Port Talbot 892712)*